

**Hysbysiad preifatrwydd yn ymwneud â  
phrosesu data personol gan yr ysgol  
sy'n cael eu recordio ar deledu cylch cyfyng.**

**(Fersiwn 1.2 – o 12.04.2023)**



**MAE EICH DATA O BWYS**

**YOUR DATA MATTERS**

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

## **Ynglŷn â'r hysbysiad preifatrwydd yma**

Mae'r hysbysiad preifatrwydd yma'n ymwneud â phrosesu data personol gan ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed yn Rhondda Cynon Taf sy'n cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol (h.y Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf neu CBSRhCT) ac ysgolion ffydd sy'n cael eu hariannu'n wirfoddol.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd yma'n berthnasol i ysgolion sy'n gweithredu system teledu cylch cyfyng.

Caiff yr hysbysiad preifatrwydd yma ei ddarparu gan Gyngor Cyngor Rhondda Cynon Taf ar gyfer ysgolion o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth diogelu data, ac ar eu rhan.

## **Cyflwyniad**

Diben yr hysbysiad preifatrwydd yma yw darparu gwybodaeth am sut bydd yr ysgol yn defnyddio (neu'n 'prosesu') data personol am unigolion sy'n cael eu recordio gan y teledu cylch cyfyng.

Dim ond y lleiafswm o wybodaeth bersonol sydd ei hangen mewn perthynas â'r diben fydd yn cael ei phrosesu.

Dylai'r hysbysiad yma gael ei ddarllen ar y cyd â hysbysiad preifatrwydd cyffredinol yr ysgol. Mae modd dod o hyd i hwn ar wefan yr ysgol.

## **Y Rheolwr Data**

Yr ysgol yw'r rheolwr data ar gyfer y data personol y mae'n eu prosesu, oni nodir yn wahanol. Mae hyn yn cynnwys y data personol sy'n cael eu prosesu gan y Corff Llywodraethu, pennaeth, llywodraethwyr unigol, athrawon, cynorthwyr addysgu a staff cymorth ac ati.

Mae'r ysgol wedi'i chofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel rheolwr.

## **Sut i gysylltu â'r ysgol ynglŷn â materion neu bryderon diogelu data**

Arweinydd Diogelu Data'r ysgol yw'r prif bwynt cyswllt ar gyfer materion diogelu data. Mae modd cysylltu ag Arweinydd Diogelu Data yr ysgol gan ddefnyddio dulliau cyswllt arferol; dros y ffôn, e-bost, drwy'r post a drwy alw heibio yn yr ysgol.

Cliciwch [yma](#) am fanylion cyswllt yr ysgol.

## Y Swyddog Diogelu Data

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn darparu gwasanaeth cymorth diogelu data i'r ysgol o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth, gan gynnwys darparu Swyddog Diogelu Data.

Mae modd cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data mewn perthynas â materion diogelu data. Serch hynny, rydyn ni'n eich annog chi i gysylltu â'r ysgol yn y lle cyntaf. Os bydd angen i chi gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data yn uniongyrchol, mae modd i chi wneud hynny drwy e-bostio:

- [Rheoli.Gwybodaeth@rctcbc.gov.uk](mailto:Rheoli.Gwybodaeth@rctcbc.gov.uk)

Wrth gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data, rydyn ni'n argymhell eich bod chi'n anfon copi o'r ohebiaeth at yr ysgol yn rhan o'i rôl fel rheolydd data.

## Y mathau o ddata personol rydyn ni'n eu prosesu

Rydyn ni'n prosesu delweddau o unigolion sy'n cael eu recordio gan deledu cylch cyfyng yr ysgol.

Dydyn ni ddim yn recordio unrhyw sain drwy system teledu cylch cyfyng yr ysgol.

Er nad ydyn ni'n mynd ati'n fwriadol i gasglu unrhyw ddata personol arall, mae'n bosibl y bydd y teledu cylch cyfyng yn casglu gwybodaeth bellach anuniongyrchol am unigolion megis problemau iechyd, data troseddau (os yw'r teledu cylch cyfyng yn cofnodi trosedd bosibl sy'n cael ei chyflawni), ac ati.

## Y mathau o ddata personol rydyn ni'n eu prosesu;

Rydyn ni'n prosesu data personol mewn perthynas ag unigolion sy'n cael eu recordio gan y teledu cylch cyfyng. Mae modd i'r wybodaeth yma gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Disgyblion
- Rhieni, gwarcheidwaid, cynhalwyr ac ati
- Staff yr ysgol
- Llywodraethwyr
- Ymwelwyr

- Contractwyr
- Y cyhoedd

## **Pam rydyn ni'n prosesu data personol?**

Rydyn ni'n prosesu data personol er mwyn;

- canfod, atal, rhwystro a lleihau nifer y troseddau
- gwella diogelwch cyffredinol yr ysgol, ei hadeiladau a'i heiddo
- gwella iechyd a diogelwch ein haelodau staff, disgyblion, rheini ac ymwelwyr
- mynd i'r afael â materion diogelu
- cynorthwyo â chwynion neu bryderon (e.e. gallai recordiad teledu cylch cyfyng gael ei ddefnyddio fel tystiolaeth i gefnogi archwiliad i gŵyn neu bryder)
- cynorthwyo â hawliadau yswiriant neu hawliadau cyfreithiol (e.e. mae modd defnyddio deunydd ffilm y teledu cylch cyfyng yn dystiolaeth i gefnogi neu amddiffyn hawliadau)

## Ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'r data personol

Yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol, ein sail gyfreithiol ar gyfer casglu data teledu cylch cyfyng a'u prosesu yw;

Diben	Sail Gyfreithiol
Atal a chanfod troseddau	<p><b>Data Personol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Tasg Gyhoeddus – Erthygl 6 (e) – prosesu sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg er budd y cyhoedd neu arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i roi i'r rheolwr</li></ul> <p><b>Data Categori Arbennig</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Budd sylweddol i'r cyhoedd – Erthygl 9 (2) (g) – prosesu sy'n angenrheidiol er budd sylweddol y cyhoedd, ar sail cyfraith Undebol neu aelod-wladwriaeth sy'n gyfraneddol i'r nod, yn parchu hanfod hawliau diogelu data ac yn darparu mesurau addas a phenodol i ddiogelu hawliau sylfaenol a buddion y person y mae'r data amdano</li><li>• Deddf Diogelu Data, Atodlen 1, Rhan 2, 6 – at ddibenion Statudol a Llywodraeth</li><li>• Deddf Diogelu Data, Atodlen 1, Rhan 2, 10 – atal a chanfod gweithredoedd anghyfreithlon</li></ul> <p><b>Data Tramgwyddau Troseddol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Deddf Diogelu Data, Atodlen 1, Rhan 2, 6 – at ddibenion Statudol a Llywodraeth</li><li>• Deddf Diogelu Data, Atodlen 1, Rhan 2, 10 – atal a chanfod gweithredoedd anghyfreithlon</li></ul>

<p>Gwella diogelwch cyffredinol yr ysgol, ei hadeiladau a'i heiddo</p>	<p><b>Data Personol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Tasg Gyhoeddus – Erthygl 6 (e) – prosesu sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg er budd y cyhoedd neu arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i roi i'r rheolwr</li></ul> <p><b>Data Categori Arbennig:</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Budd sylweddol i'r cyhoedd – Erthygl 9 (2) (g) – prosesu sy'n angenrheidiol er budd sylweddol y cyhoedd, ar sail cyfraith Undebol neu aelod-wladwriaeth sy'n gyfraneddol i'r nod, yn parchu hanfod hawliau diogelu data ac yn darparu mesurau addas a phenodol i ddiogelu hawliau sylfaenol a buddion y person y mae'r data amdano</li><li>• Deddf Diogelu Data, Atodlen 1, Rhan 2, 6 – at ddibenion Statudol a Llywodraeth</li></ul> <p><b>Data Tramgwyddau Troseddol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Deddf Diogelu Data, Atodlen 1, Rhan 2, 6 – at ddibenion Statudol a Llywodraeth</li></ul>
--	---

<p>Gwella iechyd a diogelwch ein haelodau staff, disgyblion, rheini ac ymwelwyr</p> <p>&amp;</p> <p>At ddibenion diogelwch</p>	<p><b>Data Personol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhwymedigaeth Gyfreithiol – Erthygl 6 (c) – prosesu sy'n angenrheidiol ar gyfer rwymedigaeth gyfreithiol sydd wedi'i roi i'r rheolwr</li> <li>• Tasg Gyhoeddus – Erthygl 6 (e) – prosesu sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg er budd y cyhoedd neu arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i roi i'r rheolwr</li> </ul> <p><b>Data Categori Arbennig:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Budd sylweddol i'r cyhoedd – Erthygl 9 (2) (g) – prosesu sy'n angenrheidiol er budd sylweddol y cyhoedd, ar sail cyfraith Undebol neu aelod-wladwriaeth sy'n gyfraneddol i'r nod, yn parchu hanfod hawliau diogelu data ac yn darparu mesurau addas a phenodol i ddiogelu hawliau sylfaenol a buddion y person y mae'r data amdano</li> <li>• Deddf Diogelu Data, Atodlen 1, Rhan 2, 6 – at ddibenion Statudol a Llywodraeth</li> </ul> <p><b>Data Tramgwyddau Troseddol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Deddf Diogelu Data, Atodlen 1, Rhan 2, 6 – at ddibenion Statudol a Llywodraeth</li> </ul> <p><b>Ategu deddfwriaeth:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Deddf Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999</li> <li>• Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974</li> <li>• Deddf Addysg 2022 (Adran 175)</li> </ul>
--	---

<p>Rhoi cymorth â chwynion neu bryderon</p>	<p><b>Data Personol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Tasg Gyhoeddus – Erthygl 6 (e) – prosesu sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg er budd y cyhoedd neu arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i roi i'r rheolwr</li> </ul> <p><b>Data Categori Arbennig:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Budd sylweddol i'r cyhoedd – Erthygl 9 (2) (g) – prosesu sy'n angenrheidiol er budd sylweddol y cyhoedd, ar sail cyfraith Undebol neu aelod-wladwriaeth sy'n gyfraneddol i'r nod, yn parchu hanfod hawliau diogelu data ac yn darparu mesurau addas a phenodol i ddiogelu hawliau sylfaenol a buddion y person y mae'r data amdano</li> <li>Deddf Diogelu Data, Atodlen 1, Rhan 2, 6 – at ddibenion Statudol a Llywodraeth</li> </ul> <p><b>Data Tramgwyddau Troseddol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Deddf Diogelu Data, Atodlen 1, Rhan 2, 6 – at ddibenion Statudol a Llywodraeth</li> </ul>
<p>Rhoi cymorth â hawliadau cyfreithiol neu yswiriant</p>	<p><b>Data Personol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Buddiannau Cyfreithlon – Erthygl 6(f) Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol – prosesu sy'n angenrheidiol at ddibenion buddiannau cyfreithlon a ddilynir gan y Rheolydd neu gan drydydd parti, ac eithrio pan fo buddiannau o'r fath yn cael eu diystyru gan fuddiannau neu hawliau a rhyddid sylfaenol testun y data sy'n gofyn am ddiogelu data personol, yn enwedig pan fo testun y data yn blentyn</li> </ul> <p><b>Data Categori Arbennig:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Achosion Cyfreithiol- Erthygl 9(f) Prosesu Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yn angenrheidiol ar gyfer sefydlu, ymarfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol neu bryd bynnag y mae llysoedd yn gweithredu yn eu swyddogaeth farnwrol</li> </ul> <p><b>Data Tramgwyddau Troseddol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Deddf Diogelu Data, Atodlen 1, Rhan 3, 33 – Hawliadau Cyfreithiol</li> </ul>



## Gan bwy ac o ble rydyn ni'n casglu data personol?

Rydyn ni'n casglu data personol yn uniongyrchol gan yr unigolion sy'n cael eu recordio gan y teledu cylch cyfyng yn yr ysgol.

## Gyda phwy rydyn ni'n rhannu data personol?

Dydyn ni ddim yn rhannu'r recordiad teledu cylch cyfyng gydag unrhyw sefydliadau allanol fel arfer. Serch hynny, mae modd gofyn am fynediad at recordiad teledu cylch cyfyng a'i ddatgelu i drydydd parti, at y dibenion canlynol, ble mae'r gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny (isod, rydyn ni wedi rhestru'r mathau mwyaf cyffredin o geisiadau sydd wedi dod i law. Sylwch dyw'r rhestr yma ddim yn gynhwysfawr. Bydd ceisiadau am ddata personol teledu cylch cyfyng sydd wedi'u recordio yn cael eu hymdrin â nhw fesul achos).

Yr Heddlu ac asiantaethau eraill sy'n gorfodi'r gyfraith	Mae'n bosibl y bydd data personol sy'n cael eu recordio ar deledu cylch cyfyng yn cael eu rhannu â'r Heddlu at y dibenion canlynol; <ul style="list-style-type: none"><li>• Atal a chanfod troseddau</li><li>• Dal neu erlyn tramgwyddwyr</li><li>• Achos cyfreithiol</li></ul>
Awdurdod Lleol e.e. carfan gorfodi	Mae'n bosibl y bydd data personol sy'n cael eu recordio ar deledu cylch cyfyng yn cael eu rhannu â'r Awdurdod Lleol at y dibenion canlynol; <ul style="list-style-type: none"><li>• Atal a chanfod troseddau</li><li>• Dal neu erlyn tramgwyddwyr</li><li>• Achos cyfreithiol</li></ul>
Y Llysoedd	Mae'n bosibl y bydd data personol sy'n cael eu recordio ar deledu cylch cyfyng yn cael eu rhannu â'r Llysoedd at y dibenion canlynol; <ul style="list-style-type: none"><li>• Achos cyfreithiol</li><li>• Gorchymyn llys</li></ul>
Cyfreithwyr a chynrychiolwyr cyfreithiol ac ati	Mae'n bosibl y bydd data personol sy'n cael eu recordio ar deledu cylch cyfyng yn cael eu rhannu â chynrychiolwyr cyfreithiol at y dibenion canlynol; <ul style="list-style-type: none"><li>• Achos cyfreithiol</li></ul>
Cwmnïau yswiriant, pobl sy'n ymdrin â honiadau ac ati	Mae'n bosibl y bydd data personol sy'n cael eu recordio ar deledu cylch cyfyng yn cael eu rhannu â chwmnïau yswiriant at y dibenion canlynol; <ul style="list-style-type: none"><li>• Achos cyfreithiol</li></ul>

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch	Mae'n bosibl y bydd data personol sy'n cael eu recordio ar deledu cylch cyfyng yn cael eu rhannu â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac asiantaethau perthnasol i gefnogi archwiliad.
--	---

### Dibenion mewnol

Mae'n bosibl y byddwn ni'n defnyddio delweddau sy'n cael eu recordio ar y teledu cylch cyfyng at ein dibenion mewnol canlynol (dydy'r rhestr yma ddim yn gynhwysfawr):

<b>Diben</b>	<b>Gyda phwy y byddwn ni'n rhannu'r delweddau yma a pham</b>
Rhoi cymorth â chwynion yn yr ysgol	<p><b>Cymorth i Lywodraethwyr (Cyngor Rhondda Cynon Taf)</b> – mae'n bosibl y caiff delweddau eu rhannu os yw'n addas, yn berthnasol ac yn angenrheidiol, er mwyn cael cyngor, cymorth ac arweiniad ac ati yn unol â'r gweithdrefnau cwynion ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion yng Nghymru.</p> <p><b>Corff Llywodraethu / Panel Annibynnol</b> – mae'n bosibl y caiff delweddau eu rhannu os yw'n addas, yn berthnasol ac yn angenrheidiol, fel bod modd i'r corff llywodraethu/panel annibynnol gyflawni eu swyddogaethau gorfodol mewn perthynas â chwynion yn yr ysgol yn unol â'r gweithdrefnau cwynion ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion yng Nghymru.</p> <p><b>Adnoddau dynol (Cyngor Rhondda Cynon Taf)</b> – e.e., os yw cwyn yn ymwneud ag aelod o staff, bydd delweddau'n cael eu rhannu os yw'n addas, yn berthnasol ac yn angenrheidiol at ddiben gofyn am gyngor, cymorth neu arweiniad ac ati mewn perthynas ag unrhyw faterion disgyblu posibl.</p> <p><b>Rheoli Gwybodaeth / Swyddog Diogelu Data</b> – os yw cwyn yn ymwneud â mater diogelu data, mae'n bosibl caiff delweddau eu rhannu, os yw'n addas, yn berthnasol ac yn angenrheidiol, at ddiben gofyn am gyngor, cymorth neu arweiniad ac ati mewn perthynas ag unrhyw faterion disgyblu posibl.</p>

<p>Rhoi cymorth â hawliadau yswiriant</p>	<p><b>Is-adran Yswiriant (Cyngor Rhondda Cynon Taf)</b> - mae'n bosibl y caiff delweddau eu rhannu â'r isadran yswiriant a chwmni yswiriant/hawliadau'r ysgol os yw hynny'n addas, yn berthnasol ac yn angenrheidiol at ddiben mynd i'r afael â hawliad (e.e. os yw'r teledu cylch cyfyng wedi recordio'r achos sy'n destun hawliad, bydd y delweddau yn cael eu defnyddio yn dystiolaeth i gefnogi'r hawliad).</p>
<p>Cynorthwyo â mater disgyblu aelod staff</p>	<p><b>Adnoddau Dynol (Cyngor Rhondda Cynon Taf)</b> – mae'n bosibl y caiff delweddau eu rhannu â'r is-adran yswiriant a chwmni yswiriant/hawliadau'r ysgol os yw hynny'n addas, yn berthnasol ac yn angenrheidiol at ddiben gofyn am gyngor, cymorth ac arweiniad e.e. mewn perthynas â mater disgyblu.</p>

## Proseswyr Data

Mae proseswr data yn gwmni neu sefydliad sy'n prosesu data personol ar ran rheolwr. Mae'r ysgol yn defnyddio proseswyr data sy'n darparu gwasanaethau i ni. Dyma'r categori o broseswyr data y mae'r ysgol yn eu defnyddio mewn perthynas â theledu cylch cyfyng yn yr ysgol:

- Cyflenwyr system teledu cylch cyfyng / darparwyr gwasanaethau cymorth a chynnal a chadw

Mae ein proseswyr data yn gweithredu ar ein cyfarwyddyd ni yn unig. Does dim modd iddyn nhw wneud unrhyw beth gyda'r data personol oni bai ein bod ni wedi eu cyfarwyddo nhw i wneud hynny. Fyddan nhw ddim yn rhannu'r data personol ag unrhyw sefydliad ar wahân i ni nac yn eu defnyddio at eu dibenion eu hunain. Byddan nhw'n dal y data yn ddiogel ac yn eu cadw am y cyfnod rydyn ni wedi'u cyfarwyddo i wneud hynny.

Os oes gyda chi ymholiad penodol yn ymwneud â'n proseswyr data, cysylltwch â'r Arweinydd Diogelu Data.

## Am ba mor hir byddwn ni'n cadw'r data personol?

Mae'r ysgol yn cadw recordiad teledu cylch cyfyng am un mis. Ar ôl i'r cyfnod cadw ddod i ben, bydd y recordiad yn cael ei ddinistrio'n ddiogel ac yn barhaol.

Os yw recordiad yn destun archwiliad gan yr Heddlu neu archwiliad i ddamwain neu rywbeth tebyg, bydd copi o'r recordiad yn cael ei gadw am ragor o amser.

## **Eich hawliau yn ymwneud â diogelu data**

O dan gyfraith diogelu data, mae hawliau gyda chi y mae angen i ni eich gwneud chi'n effro iddyn nhw. Mae'r hawliau sydd ar gael i chi yn dibynnu ar ein rheswm dros brosesu eich data personol.

### **Eich hawl i weld eich data personol**

Mae'r hawl gyda chi i ofyn i ni am gopiâu o'ch data personol. Mae'r hawl yma'n berthnasol ar bob adeg. Mae rhai eithriadau, sy'n golygu efallai na fyddwch chi'n derbyn yr holl ddata rydyn ni'n eu prosesu bob amser. [Darllenwch ragor am yr hawl yma ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.](#)

### **Eich hawl i'ch data gael ei gywiro**

Mae'r hawl gyda chi i ofyn i ni gywiro data personol sy'n anghywir yn eich barn chi. Hefyd, mae gyda chi'r hawl i ofyn i ni gwblhau data sy'n anghyflawn yn eich barn chi. Mae'r hawl yma'n berthnasol ar bob adeg. [Darllenwch ragor am yr hawl yma ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.](#)

### **Eich hawl i gael eich data wedi'u dileu**

Mae'r hawl gyda chi i ofyn i ni ddileu eich data personol mewn rhai amgylchiadau. [Darllenwch ragor am yr hawl yma ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.](#)

### **Eich hawl i gyfyngu ar sut mae sefydliadau'n defnyddio'ch data**

Mae'r hawl gyda chi i ofyn i ni gyfyngu ar brosesu eich data personol mewn rhai amgylchiadau. [Darllenwch ragor am yr hawl yma ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.](#)

### **Eich hawl i wrthwynebu'r defnydd o'ch data**

Mae'r hawl gyda chi i wrthwynebu i ni brosesu eich data personol mewn rhai amgylchiadau. [Darllenwch ragor am yr hawl yma ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.](#)

### **Eich hawl i drosglwyddo data**

Mae hyn ond yn berthnasol i ddata personol rydych chi wedi eu rhoi i ni. Mae'r hawl gyda chi i ofyn i ni drosglwyddo'r data personol rydych chi wedi'u rhoi i ni o un sefydliad i'r llall neu eu rhoi i chi. Mae'r hawl yma ond yn berthnasol os ydyn ni'n prosesu'r data personol yn seiliedig ar eich caniatâd neu o dan ymrwymiad i gontract, neu wrth drafod derbyn contract, a bod y prosesu'n awtomataidd. [Darllenwch ragor am yr hawl yma ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.](#)

Does dim rhaid i chi dalu am arfer eich hawliau. Mae mis gyda ni i ymateb i'ch cais o'r dyddiad y caiff eich cais ei ddilysu. Mae modd i ni ymestyn y cyfnod yma am ddau fis arall os yw'r cais yn gymhleth neu os byddwn ni'n derbyn nifer o geisiadau gennych chi.

Cysylltwch ag Arweinydd Diogelu Data'r ysgol os ydych chi'n dymuno gwneud cais.

### **Eich hawl i wneud cwyn i'r ysgol ynghylch diogelu data**

Mae'r hawl gyda chi i gwyno i'r ysgol os ydych chi o'r farn nad ydyn ni wedi trin eich data personol yn gyfrifol ac yn unol ag arfer da.

Os oes gennych chi bryder, rydyn ni'n eich annog i gysylltu â'r Arweinydd Diogelu Data yn y lle cyntaf. Mae modd datrys y rhan fwyaf o bryderon yn gymharol gyflym trwy ffonio neu e-bostio'r ysgol. Os hoffech chi wneud cwyn ffurfiol mae modd i chi wneud hynny drwy ein polisi cwynion.

### **Eich hawl i wneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch diogelu data**

Mae modd i chi hefyd gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os ydych chi'n anfodlon â sut rydyn ni wedi defnyddio'ch data, ond rydyn ni'n eich annog chi i gysylltu â ni yn y lle cyntaf.

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

- Cyfeiriad: Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF
- Rhif y Llinell Gymorth: 0303 123 1113
- Gwefan: <https://www.ico.org.uk>

## Rheoli'r fersiwn

<b>Rhif y Fersiwn</b>	<b>Dilys o</b>	<b>Dilys hyd at</b>	<b>Sylwadau</b>
1.0	27.09.2022	21.02.2023	Llunio'r ddogfen. Y ddogfen derfynol
1.1	21.02.2023	12.04.2023	Wedi'i diwygio i gynnwys fersiwn Cymraeg
1.2	12.04.2023		Diwyg bach i'r geirio a'r sillafu Wedi'i diweddarau i gynnwys cyfeiriad at gasglu data euogfarnau troseddol Wedi cynnwys tabl mewn perthynas â'r sail gyfreithiol i brosesu